# Marchnata eich amgueddfa i deuluoedd

Mae hwn yn ganllaw sylfaenol i staff amgueddfeydd ynglŷn â sut i hyrwyddo eich amgueddfa i deuluoedd.

Cyfathrebu'n dda â theuluoedd yw pumed pwynt ein Maniffesto Kids in Museums. Pan ddywedwn ni hynny, rydym yn golygu estyn allan i deuluoedd a gadael iddyn nhw wybod beth sydd gennych i'w gynnig iddyn nhw, cyn, yn ystod ac ar ôl eu hymweliad. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys awgrymiadau i'ch helpu i wneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae wedi ei lunio fwy na dim arall i dimau llai neu i weithwyr sydd heb dimau penodol ar gyfer marchnata neu i ymdrin â'r wasg.

Cyn i chi gychwyn, meddyliwch beth rydych chi eisiau ei gyflawni a phwy rydych eisiau ei gyrraedd. Beth ydych chi'n ei wybod ar hyn o bryd am eich cynulleidfa? Casglwch y data am eich ymwelwyr a'ch cynulleidfa ar-lein at ei gilydd i ddeall pwy yw eich ymwelwyr a phwy sydd heb eu cynnwys. Gallwch ddefnyddio data Audience Finder ac efallai y bydd gan eich cyngor lleol ddata am ddemograffeg yn eich ardal chi.

Mae pob teulu'n wahanol, ond mae rhai ffactorau cyffredin i'w hystyried. Maen nhw'n aml yn brin o amser, yn cadw llygad ar eu harian, yn ceisio cydbwyso galwadau ysgol ac yn edrych am rywle i dreulio eu hamser hamdden, cael hwyl a chreu atgofion gyda'i gilydd. Sut all eich sefydliad chi eu helpu nhw a beth allech chi ei gynnig i deuluoedd sy'n gynnig gwahanol i safleoedd eraill? Trwy gydol eich gwaith, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r ffocws ar y ffordd y gall eich amgueddfa fod o fudd iddyn nhw.

**Eich cyfathrebiadau**

Mae'r ffordd yr ydych yn cyflwyno eich sefydliad yn allanol yn rhan allweddol o fod yn groesawgar i deuluoedd. Yn eich cyfathrebiadau i gyd, rydych eisiau dangos bod eich amgueddfa'n lle addas i blant a theuluoedd.

**Buddsoddwch yn eich delweddau.**

A yw eich deunydd marchnata'n cynnwys lluniau o blant a theuluoedd? Ydyn nhw'n cynnwys gwahanol fathau o deuluoedd ac yn cynrychioli eich cymuned leol? Ydyn nhw'n osgoi ystrydebau o ran y rhywiau? Ceisiwch adeiladu casgliad o luniau o safon uchel o deuluoedd yn mwynhau gwahanol agweddau o'ch amgueddfa. Efallai bod grŵp lleol neu deulu y gallech eu gwahodd i mewn i gael tynnu eu lluniau, neu gallech ofyn i wirfoddolwyr neu staff sydd â phlant a ydyn nhw'n hapus i gael tynnu eu lluniau.

Cofiwch sicrhau eich bod wedi casglu'r caniatâd tynnu llun yr ydych ei angen i ddefnyddio'r delweddau at yr holl ddibenion angenrheidiol. Mae gennym esiampl o ffurflen ganiatâd ffotograffau ar gyfer y Diwrnod Meddiannu a allai fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn.

Os yw eich sefydliad yn cael trafferth cael lluniau, mae lluniau stoc rhad ac am ddim ar safleoedd fel Pexels, Canva ac Unsplash. Does dim rhaid i'ch delweddau fod yn broffesiynol bob amser, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol – gallan nhw gael eu tynnu ar ffôn

symudol. Mae gan Hubspot ganllaw defnyddiol am [dynnu lluniau da ar eich ffon symudol.]

**Teilwra eich gwefan i deuluoedd.**

Yn ein harolwg ymgynghori diweddaraf yn 2021 am Faniffesto Kids in Museums, roedd teuluoedd yn dweud mai gwefan oedd y ffordd orau o ganfod beth mae amgueddfa'n ei gynnig. Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi gwybodaeth ar-lein yn fawr iawn i'w helpu i gynllunio diwrnod allan.

Dangoswch yn glir ar eich tudalen hafan eich bod yn croesawu teuluoedd drwy gyfeirio at eich cynnig i deuluoedd a chynhwyswch luniau o deuluoedd. Os ydych wedi llofnodi ein Maniffesto, gallwch hefyd gynnwys ein logo Kids in Museums i ddangos eich bod yn croesawu teuluoedd.

Ystyriwch greu tudalen benodol i deuluoedd ar eich gwefan. Mae rhai enghreifftiau da o hyn yn y London Transport Museum a'r Andrew Carnegie Birthplace Museum. Os yw'n anodd i'ch sefydliad olygu eich gwefan, gallech chi greu eich blog eich hun i rannu eich cynigion i deuluoedd, fel hwn gan yr Amgueddfa Swoleg, neu eu cyfeirio nhw at dudalen neu grŵp Facebook. Os byddwch chi'n rhoi cynnig ar y dull hwn, gallai fod yn syniad i chi osod rheolau sylfaenol ynglŷn â'r ffordd y dylai'r grŵp gael ei ddefnyddio, a sicrhau ei fod yn cael ei wirio'n rheolaidd.

A yw'r wybodaeth bwysig i deuluoedd wedi ei rhestru'n glir ac yn hawdd dod o hyd iddi ar eich gwefan? Po fwyaf o gliciau mae'n ei gymryd i lywio drwy eich gwefan, y lleiaf tebygol ydych chi o gadw'r ymwelwyr ar y wefan. Mae canllaw da ynglŷn â sut i gychwyn arni gyda gwefannau gan y rhwydwaith Digital Culture Network.

**Sefydlwch bapur newydd i deuluoedd.**

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ennyn diddordeb teuluoedd i ymweld yw drwy gael rhestr bostio yn benodol ar gyfer teuluoedd. Mae hon yn gadael i chi anfon cylchlythyrau wedi eu teilwra yn syth at eich cynulleidfa darged.

Y ffordd hawsaf o wneud hynny yw drwy blatfform marchnata ar yr e-bost, fel MailChimp, Constant Contact neu Sender, sy'n gadael i chi lunio ac amseru eich cynnwys a rheoli eich tanysgrifwyr. Gallwch sefydlu rhestr neu segment ar wahân ar gyfer tanysgrifwyr sy'n deuluoedd.

Mae'n syniad da i dreulio amser yn creu templed cylchlythyr, yn cynnwys eich brandio a chysylltiadau at eich platfformau eraill, fel eu bod yn barod i fynd gennych o flaen llaw. Os byddwch chi angen ysbrydoliaeth, ceisiwch gofrestru i dderbyn cylchlythyrau teulu gan sefydliadau eraill.

Cadwch eich copi'n gryno gyda galwad clir i weithredu ymhob postiad. Defnyddiwch dôn llais cyfeillgar ac ystyriwch sut y gallwch eu gwneud nhw'n atyniadol i deuluoedd, efallai drwy gynnwys syniadau am weithgareddau i'w gwneud gartref neu hyd yn oed ddyfyniad neu jôc teuluol. Personolwch eich negeseuon e-bost trwy ddefnyddio Tagiau Cyfuno (Merge Tags) sy'n rhoi gwybodaeth am eich cynulleidfa, fel eu henw cyntaf, i mewn i'ch copi. Gallech chi hefyd ystyried defnyddio enw person cyswllt yn eich amgueddfa fel danfonwr y neges.

Amserwch eich postiadau'n ystyriol cyn y gwyliau a'r hanner tymhorau. Gall eich platfform marchnata e-byst argymell yr amseroedd gorau yn y diwrnod i chi anfon eich postiadau allan. Byddwch yn ofalus nad ydych yn anfon postiadau allan yn rhy aml a chofiwch gysylltu am resymau da yn unig.

Anogwch bobl i gofrestru ar gyfer eich digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein i deuluoedd, ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar dudalen hafan neu dudalen i deuluoedd eich gwefan. Mae neidlen ar eich gwefan yn gallu bod yn effeithiol iawn ar gyfer cael tanysgrifwyr. Ceisiwch gynnwys disgownt neu gymhelliant i danysgrifwyr. Er enghraifft, mae'r Academi Frenhinol yn cynnig disgownt o 10% yn y siop i bobl sy'n cofrestru o'r newydd.

Gall cylchlythyrau fod yn ffordd wych o gael adborth gan deuluoedd hefyd. Er enghraifft, gallech chi dracio pobl sydd wedi bod i ddigwyddiadau yn ddiweddar ac anfon e-bost atynt yn dilyn yr ymweliad, yn cynnwys arolwg ar-lein neu neges i'w hatgoffa i rannu eu profiad. Os yw llawer o'ch digwyddiadau i deuluoedd yn rhad ac am ddim, ystyriwch wneud y cofrestru'n orfodol er mwyn cael rhywfaint o wybodaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i deuluoedd, nid yn unig am eu profiad o ymweld, ond hefyd sut roedden nhw wedi clywed amdanoch chi, fel eich bod yn gallu teilwra eich gwaith marchnata a chyfiawnhau gwariant yn y dyfodol.

**Byddwch yn rhywun y gall pobl ei adnabod.**

Ceisiwch gadw eich arddull a'ch tôn llais yn gyson ac yn hawdd ei adnabod cymaint ag y gallwch. Os oes gennych nifer o bobl yn creu cynnwys i'ch sianelau, gall fod yn syniad da i sefydlu canllaw am y brand neu'r arddull, gan nodi arweiniad ar greu cynnwys, o ffont eich cwmni i ddefnyddio eich logo a'ch lliwiau brand.

A oes pobl benodol yn eich sefydliad sy'n gyfrifol am lunio'r rhaglen i deuluoedd? Mae cael cysylltiad wedi'i enwi mewn amgueddfa'n gallu helpu teuluoedd i ddatblygu teimlad o ymddiriedaeth yn eich sefydliad. Beth am lunio eich cylchlythyr gyda'ch enw chi neu eich tîm fel anfonwyr?

Opsiwn arall yw eich bod yn cyflwyno masgot amgueddfa i ennyn diddordeb plant a theuluoedd, a bod hwn i'w gael ymhob gohebiaeth. Gall hynny helpu i wneud eich cynnwys yn hawdd ei adnabod yn syth a'i dargedu'n glir i deuluoedd. I weld enghreifftiau, edrychwch ar Sewerby Hall and Gardens squirrel, Sophie the Owl at Ure Museum yn Reading neu'r Horniman Museum and Gardens walrus.

**Bod yn bresennol ar y cyfryngau cymdeithasol.**

Mae cael tudalen ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd, yn cynnwys Twitter, Facebook ac Instagram, yn ffordd wych o gyrraedd teuluoedd a phobl ifanc – ac mae'n rhad ac am ddim.

Yn ein harolwg diweddaraf i deuluoedd yn 2021 ar Faniffetso Kids in Musuems, roedd teuluoedd yn dweud mai at Facebook y bydden nhw'n troi am wybodaeth ar ôl eich gwefan a'ch cylchlythyr. Felly os ydych chi'n brin o adnoddau, efallai y byddwch chi eisiau canolbwyntio eich ymdrechion ar y platfform hwn. Ar Facebook yn aml iawn, mae grwpiau neu dudalennau i deuluoedd i'w cael yn eich ardal chi lle byddwch chi efallai'n gallu rhannu eich postiadau. Mae hefyd yn gadael i chi rannu eich gweithgareddau i deuluoedd fel Digwyddiadau, sy'n golygu bod defnyddwyr Facebook yn gallu gweld ac ymateb iddyn nhw ar-lein. Mae gan y Great North Museum: Hancock yn Newcastle, dudalen Facebook ar wahân, The Great North Mouse, i deuluoedd.

Mae dangos eich bod yn croesawu teuluoedd yn golygu mwy na dangos lluniau o blant a theuluoedd neu rannu eich digwyddiadau. Mae hefyd yn golygu rhannu eich ethos a nodweddion addas i deuluoedd yn eich amgueddfa. Dyma rai enghreifftiau o gynnwys cymdeithasol addas i deuluoedd yr oeddem yn eu hoffi:

- Rhannwch eich defnyddiau crefft i'r teulu, pecynnau gweithgareddau a mannau chwarae yn yr amgueddfa, fel y neges drydar hon gan Dîm Dysgu Amgueddfeydd Coventry.
- Rhowch gydnabyddiaeth i ddyddiadau sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a theuluoedd, er enghraifft gwyliau'r hanner tymor a diwrnod canlyniadau, fel yn y Post Instagram hwn o Museum of Liverpool.
- Dangoswch eich staff cyfeillgar yn barod i groesawu ymwelwyr i'r amgueddfa, fel y Post Instagram hwn gan Amgueddfa Poole.
- Crëwch graffeg sy'n denu'r llygad i hysbysebu eich digwyddiadau a'ch cynnig i deuluoedd, gan ddefnyddio meddalwedd fel Canva, fel y postiad Facebook hwn gan Amgueddfa Tullie House.
- Rhannwch sylwadau plant. Ffilmiodd Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog ddisgyblion ysgol lleol yn ymateb i wrthrychau mewn amgueddfa i greu darn diddorol iawn o gynnwys fideo.

Cofiwch, pwrpas y cyfryngau cymdeithasol yw cael sgwrs. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymateb i bostiadau ymwelwyr drwy eu hoffi, eu rhannu/aildrydaru neu eu hateb, yn union fel y byddai eich staff blaen tŷ yn ymateb i ymwelwyr. Ymatebwch i sylwadau ymwelwyr ar y cyfryngau cymdeithasol neu TripAdvisor, gan wneud nodyn o'r dyfyniadau cadarnhaol i'w rhannu wrth gyfathrebu.

Yn ôl adroddiad The 2nd Dose gan Beatfreeks ar Dueddiadau'r Ifanc yn Genedlaethol, y pedwar platfform mwyaf poblogaidd i bobl ifanc (Gen Z) yw Instagram, TikTok, Snapchat a YouTube. Mae pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer adloniant (yn

arbennig ffotograffiaeth esthetig a chynnwys doniol ysgafn galon fel memes), i gysylltu â'u cyfeillion, neu ar gyfer addysg, Gwahoddwch bobl ifanc i gyfrannu at gynnwys eich cyfryngau cymdeithasol neu hyd yn oed ddangos i chi sut mae gwahanol blatfformau'n gweithio, yn rhan o'r [Diwrnod Meddiannu Digidol.]

Cadwch lygad ar y math o gynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n perfformio'n dda gan ddefnyddio offer wedi ei adeiladu i mewn: Facebook ac Instagram Insights a Twitter Analytics. Gallai hyn eich helpu i ddadlau dros fuddsoddi mewn rhagor o offer, fel camera i'r amgueddfa, treipod, microffonau neu feddalwedd golygu, i'ch helpu i greu cynnwys o safon uwch yn y dyfodol.

## Marchnata Digidol

### Anogwch deuluoedd i rannu eu lluniau â chi ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ceisiwch greu mannau penodol i dynnu hun-luniau yn eich amgueddfa neu darparwch bropiau, fel ffrâm luniau enfawr i ymwelwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn yn rhywle lle mae digonedd o signal ffôn symudol neu Wi-Fi fel bod hyn yn gallu gweithio ar unwaith ac yn rhwydd. Cynhwyswch enw eich cyfrif er mwyn i chi allu canfod, rhannu ac ymateb i'r postiadau.

### Hysbysebwch eich amgueddfa ar Facebook.

Mae hysbysebu ar Facebook yn ffordd wych o gyrraedd teuluoedd – mae'r lleiafswm y mae'n rhaid i chi ei wario'n isel (o tua £5 yn dibynnu ar eich ymgyrch) sy'n golygu y gallwch dreialu syniadau'n hawdd, mae'n hawdd ei addasu, ac mae'r maint o ddata i ddefnyddwyr yn golygu y gallwch hidlo eich cynulleidfa i lawr yn dda. Mae hefyd yn dod yn gynyddol hanfodol i wneud hyn er mwyn cael estyniad da.

Ar Facebook ac Instagram, gallwch chi naill ai greu hysbyseb newydd neu roi hwb i bostiad sydd yno'n barod. Mae angen i'ch hysbyseb gael nod glir – ydych chi'n ceisio cael mwy o ymwelwyr i'ch gwefan, ennyn mwy o ddiddordeb, creu mwy o gysylltiadau neu gael pobl i gysylltu â chi? Dewiswch eich cynulleidfa, gan dargedu ardaloedd daearyddol, rhyw, oedran a diddordebau penodol, yna eich cyllideb ddewisol ac am faint o amser i'w ddangos (bydden ni'n argymell pedwar diwrnod o leiaf). Bydd yn rhoi amcangyfrif i chi o sawl defnyddiwr yr ydych yn disgwyl eu cyrraedd fesul diwrnod.

### Gweithio gyda dylanwadwyr teulu.

Edrychwch i weld a oes unrhyw ddylanwadwyr teulu lleol y gallech weithio â nhw i hysbysebu eich amgueddfa. Mae'n bwysig eich bod yn dewis pobl sydd â meddylfryd cydnaws â'ch sefydliad a'ch gwerthoedd, yn ogystal â bod â'r dilynwyr cywir ar gyfer y gynulleidfa darged yr hoffech eu denu. Mae blogwyr teulu'n amrywio'n enfawr o ran y maint a'r math o bobl sy'n eu dilyn a'r ffioedd y maen nhw'n eu codi a bydd hyn yn effeithio ar y gost bosibl. Nid nifer yw'r peth pwysicaf bob tro – yn aml iawn mae gan ddylanwadwyr llai ddilynwyr

ffyddlon iawn. Edrychwch ar eu postiadau a gwelwch a yw eu dilynwyr yn ymateb yn dda iddyn nhw.

Yn aml iawn bydd gan y cyfrifon hyn gyfrif e-bost wedi ei restru yn eu gwybodaeth gefndir neu gallech gysylltu â nhw gyda neges uniongyrchol (DM). Gallech gynnig tocynnau am ddim iddyn nhw a thalu eu costau cludiant i ddiolch iddyn nhw am bostio gwybodaeth am eich amgueddfa, neu gallech eu gwahodd i gael 'golwg gyntaf' ar arddangosfa neu weithgaredd newydd. Ceisiwch sefydlu amcan clir, ond cofiwch eich bod yn gweithio gyda pherson, nid sefydliad, felly mae croeso iddyn nhw rannu eu barn bersonol.

**Dod i ddeall SEO.**

Ystyr SEO yw Optimeiddio Peiriannau Chwilio, sef gwneud eich gwefan yn fwy gweladwy ar beiriannau chwilio fel Google. Gall hyn eich helpu i dyfu cynulleidfa eich gwefan, yn ogystal â gwneud eich brand yn fwy credadwy a gwneud mwy o bobl yn ymwybodol ohono.

Mewn geiriau syml iawn, mae hyn yn golygu ychwanegu 'geiriau allweddol', sef geiriau neu ymadroddion chwilio cyffredin, i'ch gwe dudalennau i'w helpu i ymddangos yn fwy amlwg i ddefnyddwyr y we sy'n chwilio am y termau hyn. Gallwch chwilio am eiriau allweddol gan ddefnyddio offer geiriau allweddol rhad ac am ddim fel Wordstream a Google Trends, i ddeall termau chwilio poblogaidd sy'n gysylltiedig â'ch amgueddfa, ei chynnwys neu'r ardal leol. Chwiliwch am dermau chwilio sy'n berthnasol ac yn boblogaidd, ond nid mor generig fel eu bod nhw'n eithriadol gystadleuol. Yna gallwch ychwanegu'r geiriau allweddol hyn i mewn i gynnwys eich gwefan ysgrifenedig, yn amlwg yn y copi ar y dudalen ac ym metadata'r dudalen. Bydd gan wefan wedi ei diweddaru alluoedd neu ategion mewnol, fel Yoast, i'ch helpu i wneud hyn.

Ffordd arall o roi hwb i'ch sgôr SEO yw sicrhau bod eich gwe dudalen yn cael ei rhannu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar ddolen mewn gwefannau eraill o safon dda fel gwefan y cyngor lleol. Mae llawer mwy i'w esbonio am SEO nag y gallwn ei ddisgrifio'n fanwl yma. Mae cyflwyniad Chris Unitt o gynhadledd 2019 yr Arts Marketing Association yn gyflwyniad da os ydych eisiau gwybod rhagor.

**Defnyddiwch Google Ads.**

Mae Google Ads yn blatfform hysbysebu ar-lein sy'n gallu rhoi hysbysebion yng nghanlyniadau peiriannau chwilio, yn ogystal â mewn gwefannau eraill nad ydynt yn chwilio. Gall fod yn erfyn hynod o effeithiol i yrru defnyddwyr i'ch safle. Ond, mae gofalu am gyfrif yn gallu cymryd llawer o amser felly meddyliwch yn ofalus pa ganlyniadau rydych eisiau eu gweld o ddefnyddio Google Ads cyn i chi gychwyn.

Does dim rhaid gwario lleiafswm penodol a gall sefydliadau nid-er-elw wneud cais am Grant Google Ads, sy'n eich galluogi i gael hyd at £7,000 y mis mewn hysbysebion chwilio sy'n cael eu dangos ar Google.com.

Rydych yn creu hysbyseb ar gyfer gwe dudalen ac yn dewis geiriau allweddol lle byddech yn hoffi i'ch hysbyseb ymddangos, gan fidio yn erbyn hysbysebwyr eraill er mwyn i'ch hysbyseb gael ei dangos ar y top. Mae Google Ads yn rhoi Sgôr Ansawdd o 1-10 i'ch hysbyseb ar sail ansawdd a pherthnasedd eich hysbyseb. Gallwch dracio cynnydd eich hysbyseb ar Google Ads a thrwy Google Analytics.

Gwelwch yr [hyfforddiant Google Ads rhad ac am ddim ar Skillshop] i ddysgu rhagor ac i'ch helpu i gychwyn arni.

**Marchnata ffisegol**

**Comisiynwch ac arddangoswch ddeunyddiau ffisegol, fel posteri, taflenni gwybodaeth, llyfrynnau am ddigwyddiadau neu gardiau post.**

Lle yn eich ardal leol chi sy'n denu teuluoedd? Archwiliwch y posibilrwydd o weithio gyda phartneriaid lleol, fel caffis, safleoedd neu lyfrgelloedd, i rannu deunyddiau.

Os oes ardal neu god post penodol yr hoffech eu cyrraedd, beth am ddosbarthu taflenni marchnata yno? Gallai'r rhain gynnwys cod disgownt neu gynnig i annog ymweliadau. Os oes gennych ddigon o gyllideb, gallech dalu i asiantaeth ddosbarthu eich taflenni gwybodaeth, neu gallech ofyn i'ch gwirfoddolwyr eich helpu gyda hyn.

Mae baner tu allan i'ch amgueddfa yn ffordd wych o ledaenu'r gair i bobl sy'n pasio heibio na fyddai'n ymweld fel arfer. Mae hyn yn cael ei wneud yn aml gan amgueddfeydd sydd wedi ennill ein Gwobr i Amgueddfeydd sy'n Croesawu Teuluoedd neu'n cael eu rhoi ar y rhestr fer.

Yn eich amgueddfa, ystyriwch osod dalwyr posteri hysbysebu lle mae'r teuluoedd, er enghraifft ar gefn drysau'r toiled, gerllaw cyfleusterau newid babanod neu gerllaw cadeiriau uchel yn y caffi.

**Rhannu nodau tudalen neu daflenni gwybodaeth gyda grwpiau ysgol sy'n ymweld.**

Dosbarthwch daflenni gwybodaeth i blant sy'n ymweld fel y gallent eu cymryd adref. Gallai'r rhain gynnwys cynnig arbennig os byddan nhw'n dod â'u teulu yn ôl yno neu gallent ddweud wrth y teulu sut i gofrestru i dderbyn eich cylchlythyr i deuluoedd. Gallech chi ofyn i unrhyw ysgol y mae gennych gysylltiad â hi a fydden nhw'n cynnwys eich digwyddiadau mewn cylchlythyr ysgol neu lythyr diwedd tymor i rieni.

Gallech hefyd wneud cyflwyniad i'r disgyblion mewn unrhyw ysgol leol cyn bob gwyliau hanner tymor i atgoffa plant a staff am eich cynnig i deuluoedd.

Os nad ydych yn derbyn grwpiau ysgol yn rheolaidd, a oes gan unrhyw rai o'ch staff neu wirfoddolwyr gysylltiadau ag athrawon ysgol neu grwpiau lleol mewn lifrai fel y Brownies neu'r cadetiaid?

**Rhedeg stondin yn eich tref leol neu ddigwyddiad cymunedol.**

Allech chi sefydlu stondin neu 'amgueddfa dros dro' yng nghanol y dref neu mewn digwyddiad cymunedol? Os oes gennych berthynas dda gyda'ch cyngor lleol, gallech siarad â nhw i weld a allech chi gael stondin marchnad.

**Cysylltiadau Cyhoeddus**

**Cadwch mewn cysylltiad â'r wasg leol a'r wasg i deuluoedd.**

Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw gyda gwasanaeth monitro'r cyfryngau, fel Gorkana neu Meltwater, sy'n gadael i chi gysylltu â chysylltiadau newyddiadurol wedi eu henwi mewn gwahanol gwmnïau cyhoeddi. Byddent hefyd yn rhoi manylion am amseroedd cyflwyno gwybodaeth i chi ac yn tracio'r sylw a gewch yn y wasg. Ond, os nad oes gennych y math yma o gyllideb, mae opsiynau eraill sy'n rhad ac am ddim.

Os nad ydych yn siŵr gyda phwy i gysylltu, edrychwch ar media.info i ganfod mannau lleol neu ceisiwch ffonio eich papur lleol i weld gyda phwy y dylech chi siarad. Mae'n well cael cyswllt wedi ei enwi bob tro a gallwch greu perthynas â nhw ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol. Gallech eu gwahodd allan am goffi i sgwrsio am y pethau sydd gennych ar y gweill.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw llygad ar beth sy'n boblogaidd yn y cyfryngau plant. Gallech ofyn i blant a grwpiau ysgol pan maen nhw'n ymweld. Dyma rai cylchgronau sy'n boblogaidd iawn gyda phlant, Primary Times, The Week Junior, First News a National Geographic Kids. Dewch yn gyfarwydd â'r mathau o bethau maen nhw'n ei rannu – prynwch gopi a chwiliwch am segmentau poblogaidd neu sy'n cael eu hailadrodd, a cheisiwch awgrymu syniad sy'n cyd-fynd â'r cynnwys sydd ganddyn nhw'n barod.

Mae gan wahanol gwmnïau cyfryngau wahanol ofynion o ran amser cyflwyno gwaith, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o rybudd – anelwch am rybudd o wythnos i bapur newydd lleol. Bydd cyhoeddiadau wythnosol yn gweithio o leiaf fis o flaen llaw fel arfer ac mae cylchgronau a chyhoeddiadau misol yn gweithio fisoedd lawer, i flwyddyn, o flaen llaw. Anfonwch restr o ddigwyddiadau ddigonedd o amser o flaen llaw i'r cyfryngau, ac yna ddatganiad i'r wasg manylach yn agosach at yr amser.

**Rhestrwch eich digwyddiadau ar-lein.**

Dyma rai o'r platfformau gyda gwasanaethau rhestru rhad ac am ddim y mae amgueddfeydd wedi dweud wrthym eu bod yn eu cael yn ddefnyddiol i gyrraedd teuluoedd:

- Autism in Museums (ar gyfer digwyddiadau i deuluoedd a phobl ifanc gydag awtistiaeth)

- Day Out with the Kids
- Families Online
- Fantastic for Families
- MumsNet
- Museum Crush
- Raring2go!
- The List

Bydd opsiynau rhanbarthol yn eich ardal chi hefyd, a allai gynnwys cylchlythyr y cyngor lleol, neu efallai rwydweithiau sydd â diddordeb penodol. Er enghraifft, mae The London Transport Museum yn aml yn gweithio gyda Transport Sparks, sef cymuned i bobl ifanc awtistig sy'n frwdfrydig iawn am gludiant. Gallai fod yn syniad da i archwilio apiau, fel Nextdoor, er mwyn canfod teuluoedd yn eich ardal leol.

Mae Kids in Museums hefyd yn cynhyrchu crynodebau What's On ar ein gwefan ac yn rhannu digwyddiadau i deuluoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Anfonwch eich digwyddiadau atom yn: getintouch@kidsinmuseums.org.uk

**Gosodwch Google Alerts.**

I gadw golwg ar y sylw a gewch yn y wasg, cofrestrwch i'r gwasanaeth rhad ac am ddim Google Alerts sy'n tracio enw eich amgueddfa a thermau chwilio perthnasol eraill, fel enw eich arddangosfa ddiweddaraf. Bydd hyn yn anfon nodweddion ar-lein sy'n sôn am eich sefydliad yn syth i'ch mewnflwch – er nad yw'n cynnwys cyfryngau a phrint, fel y byddai gwasanaeth monitro'r cyfryngau'n ei wneud. Gall hon fod yn ffordd dda o gadw golwg ar adolygiadau ar-lein.

Os oes sefydliad arall sy'n gwneud gwaith da yn eich barn chi o ran denu teuluoedd, gallech eu dilyn nhw ar Google Alerts hefyd i weld lle mae eu cynnyrch yn ymddangos.

**Adnoddau**

- Canllaw i Farchnata Hygyrch
  Gwnewch yn siŵr bod eich deunyddiau marchnata'n hygyrch i bob teulu gyda'r canllaw defnyddiol hwn.
- Arts Marketing Association
  Mae gan Arts Marketing Association ddigwyddiadau hyfforddi rheolaidd i staff yn y sector diwylliannol i'ch helpu i wella eich sgiliau marchnata a digidol.
- Grŵp Facebook Arts Marketing Association i Gynorthwyo'r Gymuned
  Grŵp cymunedol dan arweiniad yr Arts Marketing Association i gael pobl broffesiynol yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i weithio ar ddenu diddordeb cynulleidfaoedd yn yr hyn maen nhwn ei wneud.
- culturehive – Cymdeithas Marchnata Celfyddydau
  Mae gan y llyfrgell adnoddau ar-lein rhad ac am ddim hwn gyfoeth o adnoddau yn ymwneud â'r wasg, hyrwyddo a marchnata.
- Cylchlythyr MoreThanRobots

Cofrestrwch i dderbyn y cylchlythyr hwn er mwyn gweld y diweddaraf am ennyn diddordeb mewn popeth digidol a phobl ifanc.

- Grŵp Facebook Museum Social Media Managers
  Cewch ysbrydoliaeth a gallwch ofyn cwestiynau i bobl eraill sy'n rheolwyr cyfryngau cymdeithasol ar y grŵp cymorth hwn i staff amgueddfeydd.
- The Complete Guide to Digital Marketing for Museums – MuseumNext
  Mae'r canllaw 156 o dudalennau rhad ac am ddim hwn yn esbonio'n fanwl sut i sefydlu cynnig marchnata.